# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cwmbran House**

**Cwmbran House**
**Five Locks Road**
**Cwmbrân**
**NP44 1AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cwmbran House

| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
|---|---|
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Rhagfyr 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu dros dair uned ar wahân; gall preswylwyr yn unedau Canal, Meadow a Mountainside dderbyn safonau gwahanol o ofal a chymorth gan ddibynnu ar ba uned y maent yn byw ynddi. Nid yw cynlluniau personol y bobl bob amser yn adlewyrchu eu hanghenion unigol. Nid yw'r prosesau i sicrhau y caiff gofal ei ddarparu mewn ffordd gyson a dibynadwy yn ddigon cadarn gan na all y bobl fod yn hyderus y cânt eu diogelu rhag niwed. Yn ogystal, nid yw'r arferion ar gyfer meddyginiaethau a rheoli stoc yn gwneud digon i sicrhau bod y bobl yn cael y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir. Gwelsom fod y bobl yn canmol y staff a'r amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant.

Mae rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am weithredu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Caiff y staff eu hyfforddi a'u datblygu ac mae'r trefniadau goruchwylio wedi gwella. Nid yw'r systemau a'r prosesau archwilio ar gyfer monitro'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd bod Cwmbran House yn darparu gwasanaeth o ansawdd, yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer unigolion nac yn gwella eu llesiant yn y tair uned. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i ddarparwr y gwasanaeth gan fod risg i iechyd a llesiant y bobl.

## Llesiant

Ni all y bobl fod yn hyderus y byddant bob amser yn cael eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd y preswylwyr a'u perthnasau wrthym fod y staff yn garedig, yn dosturiol ac yn sensitif. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn adnabod yr unigolion yn dda ac yn wybodus am eu hanghenion, er y dywedodd perthnasau a staff wrthym am adegau lle nad yw hyn yn wir. Er enghraifft, ni chaiff gofal ymataliaeth yr unigolion bob amser ei roi mewn modd amserol. Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys gwybodaeth anghyson sy'n peri risg y caiff gofal gwael ac annibynadwy ei ddarparu. Gwelsom wahaniaeth amlwg rhwng ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ar wahanol unedau.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Gwelsom nad yw'r unigolion bob amser yn cael gofal a chymorth yn unol â'u cynlluniau personol gan nad yw’r systemau ar gyfer monitro ac adolygu'r cynlluniau gofal yn effeithiol. Nid yw hyn yn helpu'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer meddyginiaethau gan nad ydynt yn ddigon cadarn, sy'n golygu nad yw'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd er mwyn sicrhau'r lefelau iechyd gorau posibl ar eu cyfer.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro damweiniau, digwyddiadau a chwynion ac mae'r rheolwr yn rhoi gwybod i'r asiantaethau perthnasol am ddigwyddiadau o bwys. Fodd bynnag, gall y gwasanaeth fod yn anymatebol wrth leihau'r risgiau i'r bobl. Gwelsom achosion o oedi wrth ailasesu'r risgiau i'r bobl, er enghraifft eu helpu i aros yn ddiogel ar ôl iddynt gwympo, a pharchu eu rhyddid.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd er bod gwahaniaeth amlwg o ran lefelau ysgogi ac ymgysylltu cymdeithasol rhwng yr unedau. Cafodd y ddarpariaeth ei chynyddu er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu hysgogi bob bore a bob prynhawn. Mae ardaloedd penodedig ar gael ar y safle i'r bobl eu defnyddio i gyfarfod â theulu neu i dreulio amser yn ymlacio, ac yn ystod ein hymweliad, cynhaliwyd parti yn yr ardd â diddanwr, y gwnaeth y bobl ei fwynhau.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Gall y bobl dreulio amser ag eraill yn yr ardaloedd cymunedol neu'n breifat yn eu hystafelloedd. Mae ystafell fwyta ar gael i'r bobl sy'n byw mewn dwy o'r unedau er mwyn iddynt fwyta eu prydau a chymdeithasu. Dyluniwyd yr eiddo er mwyn cynnig golygfeydd o'r gerddi.

## Gofal a Chymorth

Nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys digon o fanylion i lywio'r staff a'u galluogi i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion. Nid oes gwybodaeth gyfredol ar gael i'r staff am y bobl y maent yn eu cefnogi. Roedd y cynlluniau y gwnaethom eu samplu yn cynnwys gwybodaeth anghywir nad yw bob amser yn adlewyrchu'r gofal a chymorth a roddir. Nid yw'r unigolion bob yn cael eu cefnogi'n gyson yn unol â'u hoff bethau a'u dewisiadau. Ar y cyfan, gwelsom anghysondebau yn y broses o gynllunio gofal sy'n peri risg i iechyd a llesiant y bobl.

Nid yw'r systemau ar gyfer asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu yn helpu'r unigolion i gyflawni canlyniadau personol. Nid yw'r cynlluniau personol na'r dogfennau eraill yn cael eu diweddaru fel mater o drefn pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae'r adolygiadau o gynlluniau gofal y bobl yn gryno ac yn cael eu cwblhau heb unrhyw ystyriaeth i newidiadau o ran yr anghenion i'w diwallu na'r canlyniadau i'w cyflawni. Nid yw anghenion yr unigolion yn cael eu hasesu'n barhaus, yn enwedig pan fyddant yn dychwelyd ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r materion hyn yn cael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â gofal a chymorth ar gyfer y bobl. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael cymorth mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff gofal ddealltwriaeth glir o'r anghenion unigol a sut i'w diwallu. Gwelsom y staff gofal yn cymryd amser i eistedd gyda'r bobl a chael sgyrsiau ystyrlon. Yn yr un modd, gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd chwareus mewn grwpiau, gan annog y bobl i gymryd rhan yn y grŵp. I'r gwrthwyneb, ar un uned, roedd yr enghreifftiau o ymgysylltu yn cael eu harwain gan fwyaf gan dasgau ac nid oeddent yn canolbwyntio ar lesiant y bobl. O ganlyniad, mae'r bobl yn cael gofal a chymorth nad yw bob amser yn ystyried eu hurddas. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer meddyginiaethau yn ddigon cadarn. Nid yw'r staff wedi cael hyfforddiant addas i roi meddyginiaethau fel patshys trawsgroenol yn ddiogel. Mae enghreifftiau lle mae'r bobl yn rhedeg allan o feddyginiaeth yn digwydd o hyd, er gwaethaf y systemau a gyflwynwyd i sicrhau bod stociau digonol ar gael. Gwelsom fod y bobl yn cael meddyginiaeth “PRN” fel y bo'n ofynnol heb roi'r mesurau diogelu anghenrheidiol ar waith. Nid yw'r staff yn cofnodi'r rheswm dros roi meddyginiaethau tawelyddu na'u heffeithiolrwydd. Mae'r wybodaeth hon yn allweddol i sicrhau y caiff iechyd a llesiant y bobl eu cynnal. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn cynnig awyrgylch glân, cartrefol a chyfforddus. Mae'r eiddo wedi'i rannu'n dair uned er mwyn galluogi trefniadau byw cymunedol llai sy'n addas ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r amgylchedd yn lân, mewn cyflwr da ac nid oes llawer o beryglon. Heblaw am un o'r unedau, mae'r awyrgylch yn ddigynnwrf ac yn gyfforddus. Mae cynllun yr eiddo yn cynnig amrywiaeth o ardaloedd eistedd i'r bobl dreulio eu hamser lle yr hoffent. Mae llawer o gyfleoedd i gymysgu ag eraill mewn ystafell fwyta gymunedol. Mae'r cyntedd yn cynnig ysgogiadau golau ac ysgogiadau synhwyraidd o blanhigion ac mae'r gerddi yn cynnwys nodweddion dŵr sy'n helpu'r bobl i ymlacio. Mae ystafelloedd y bobl yn unigol ac wedi'u haddurno â ffotograffau o'u teulu ac eitemau bach i gofio. Mae cymhorthion ac addasiadau i helpu'r bobl i fod yn annibynnol. Gwelsom fod cymorth i unigolion ag anghenion synhwyraidd ychwanegol, gan gynnwys canllawiau, cadeiriau a charpedi lliwiau gwahanol.

Mae gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau yn cael eu cynnal yn barhaus ac mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith. Nodwyd materion yn yr eiddo gan gynnwys staeniau amlwg a mannau anwastad ar y llawr yn yr unedau, bath yr oedd angen ei atgyweirio ac amrywiaeth o fannau lle roedd dŵr yn gollwng. Roedd y materion hyn wedi cael eu hatgyfeirio at gontractwyr. Er bod y sefydliad yn bwriadu recriwtio swyddog atgyweirio ar gyfer y gwasanaeth, nid oes rhaglen ailaddurno ac adnewyddu ar waith ar hyn o bryd ar gyfer cynnal a chadw'r eiddo yn yr hirdymor.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae angen gwella'r trefniadau llywodraethu sy'n sail i weithredu'r gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli wedi newid ers ein harolygiad diwethaf o'r gwasanaeth. Penodwyd rheolwr newydd ym mis Chwefror 2023 sydd wedi'i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, a chaiff ei gefnogi gan ddirprwy reolwr. Dywedodd y staff a'r perthnasau wrthym nad yw'r tîm rheoli bob amser yn ymateb yn dda i'r materion a gaiff eu codi.

Nid yw'r systemau a'r prosesau archwilio ar gyfer monitro'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd bod Cwmbran House yn darparu gwasanaeth o ansawdd, yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer unigolion ac yn gwella eu llesiant. Nid yw'r gwaith o fonitro ac archwilio'r gwasanaeth a ddarperir yn llwyddo'n rheolaidd i nodi achosion pan fo ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau yn y fantol. Gwelsom fod nifer o'r mentrau a gyflwynwyd i ymdrin â diffygion yn aneffeithiol gan fod y diffygion yn parhau. Er enghraifft, nid oedd y systemau sydd ar waith yn nodi anghysondebau o ran cynlluniau personol y bobl nac yn atal y gwasanaeth rhag redeg allan o feddyginiaethau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaeth yn unol â'r Rheoliadau a chaiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cynnal fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nid ydynt yn dangos bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n ofalus, gan na lwyddwyd i nodi methiannau allweddol mewn perthynas â'r rheoliadau nac i weithredu ar y methiannau hyn o ganlyniad i'r ymweliadau a'r adolygiadau hyn. Mae angen rhoi systemau clir ac effeithiol ar waith sy'n dangos bod y gwasanaeth a ddarperir yn y tair uned yn cael ei oruchwylio a'i werthuso. Mae hyn yn effeithio ar iechyd a llesiant y bobl, ac rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, neu nid ydynt yn eu cael mewn ffordd sy'n cynnal eu hurddas a'u parch. Roedd gweithwyr iechyd proffesiynol wedi mynegi pryderon am iechyd a llesiant yr unigolion sy'n byw yn un o'r unedau. Roedd darparwr y gwasanaeth yn rhagweithiol wrth atal unrhyw unigolion newydd rhag cael eu derbyn i'r uned ac wrth roi camau ar waith i sicrhau diogelwch yr unigolion ar unwaith. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom wahaniaethau amlwg yn y gwasanaethau a ddarperir i'r unigolion sy'n byw yn un uned. Nid oedd y pryd canol dydd yn edrych yn flasus a phrin oedd yr enghreifftiau o staff yn ymgysylltu â'r preswylwyr. Dywedodd y perthnasau a'r staff wrthym nad yw'r bobl yn cael eu trin yr un fath ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae hyn yn wahanol i brofiadau'r bobl sy'n byw mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. Roedd y staff sy'n gweithio yn yr uned yn amlwg o dan straen yn ystod ein hymweliad. Gwnaethom ofyn am sicrwydd gan y rheolwr y byddai'r lefelau staffio yn cael eu cynyddu i ddiwallu anghenion yr unigolion yn dilyn ein harolygiad. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant er nad yw bob amser yn ddigon i ddiwallu anghenion yr unigolion y maent yn eu helpu. Nid oedd y staff bob amser wedi cael hyfforddiant cyfredol i ddiwallu anghenion yr unigolion. Er enghraifft, meddyginiaeth a gofal diwedd oes. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd â'u rheolwr llinell. Mae'r cymorth un-i-un hwn yn rhoi cyfle i aelodau o'r staff drafod unrhyw bryderon neu anghenion hyfforddiant a allai fod ganddynt, ac i'w rheolwr llinell roi adborth ar eu perfformiad yn y gwaith.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r Datganiad o Ddiben. | Newydd |
| 21 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy’n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | 25(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion yn cael eu trin ag urddas a pharch. | Newydd |
| 34 | Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod nifer digonol o staff sydd â'r hyfforddiant a'r cymhwysedd addas yn gweithio yn y gwasanaeth. | Newydd |
| 58 | Rhaid i’r darparwr gwasanaeth gael trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cyflenwad digonol o feddyginiaethau a'u bod yn cael eu gweinyddu’n ddiogel. | Newydd |
| 36 | Nid yw pob aelod o'r staff gofal yn cael eu goruchwylio bob tri mis, fel y gwelir ar y matrics goruchwylio gweithwyr gofal a ddarparwyd gan y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 59 | Gwelsom fod bylchau sylweddol yn rhywfaint o'r ddogfennaeth ysgrifenedig gan gynnwys siartiau ysgarthu, cofnodion colli pwysau a chofnodion gofal personol dyddiol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/09/2023